

# Astudiaeth achos: Defnydd o'r grant dysgu proffesiynol ychwanegol yn 2019/20

## Cyd-destun a chefnidir

### Yr ysgol

Ysgol cyfrwng Saesneg yng Nghasnewydd yw Ysgol Gynradd Langstone ac mae'n rhan o'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg (EAS), Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion de-ddwyrain Cymru. Mae gan yr ysgol 325 o ddysgwyr ar y gofrestr: mae 2 y cant yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim (FSM); mae 8 y cant ohonyn nhw ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY); mae 1.5 y cant â Saesneg fel iaith ychwanegol (EAL). Y rhaniad rhwng y rhywiau yn yr ysgol yw 51 y cant yn fechgyn a 49 y cant yn ferched.

### Arweinwyr dynodedig ac aelodau o staff addysgu

Mae pum aelod o staff yn y tîm arweinyddiaeth. Mae 15 o athrawon cyfwerth ag amser llawn yn Ysgol Gynradd Langstone, yn ogystal â 9.5 o gynorthwywyr addysgu cyfwerth ag amser llawn.

### Swm y grant dysgu proffesiynol ychwanegol

Cafodd yr ysgol £9,229 ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ebrill 2019 a mis Mawrth 2020.

## Sut y defnyddiwyd y grant ychwanegol

Defnyddiwyd y grant ychwanegol mewn nifer o ffyrdd i gefnogi dysgu proffesiynol yn yr ysgol, gan gynnwys:

- rhyddhau aelodau o staff i ddilyn hyfforddiant ar fethodolegau ymchwil ac i arwain ar ymchwil ar gyfer yr ysgol a all gefnogi'r holl athrawon i fod yn hyderus ac yn fedrus ym maes ymchwil yn seiliedig ar ymholiad
- contractio darparwr i weithio gyda'r Uwch Dîm Arwain i gael mwy o ddealltwriaeth o'u hunain fel arweinwyr, o'i gilydd fel arweinwyr ac ar y cyd fel tîm arwain
- ariannu gwaith clwstwr ar gyfer y dysgwyr mwy abl a thalentog a datblygu rhaglen bontio ar gyfer Blwyddyn 5–8 ar ddatblygu dealltwriaeth gysyniadol ddofn mewn mathemateg gan ddefnyddio dulliau diriaethol, darluniadol a haniaethol
- rhoi amser i'r holl athrawon gwblhau adolygiad 360° ar y Rhaglen Rhagoriaeth ar gyfer Addysgu a'r Rhaglen Arweinwyr. Roedd hyn yn cefnogi gwell dealltwriaeth

o'r safonau proffesiynol newydd ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth a gweithgareddau dysgu proffesiynol

- trefnu i gynorthwywyr addysgu ymweld ag ysgolion cynradd yn y clwstwr yn rhan o rannu arfer da
- hyfforddiant mathemateg ysgol gyfan i gefnogi'r Cwricwlwm i Gymru newydd mewn mathemateg a rhifedd.

## Effaith y grant ar gydweithwyr ar draws yr ysgol

Mae'r grant wedi cael effeithiau amrywiol ar gydweithwyr ar draws yr ysgol gan gynnwys y canlynol.

- Mae Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu a thriadau ymchwil wedi cynyddu hyder y staff drwy sicrhau bod ymchwilydd arweiniol yn yr ysgol i gynnal gweithgareddau ymchwil unigol.
- Mae'r gwaith rhwng y darparwr a'r uwch dîm arwain wedi bod yn ddefnyddiol iawn a bydd hyn yn parhau i ddatblygu eu heffeithiolrwydd fel tîm.
- Mae mathemateg yn parhau i fod yn ffocws ar draws yr ysgol, a neilltuir amser i hynny mewn cyfarfodydd staff, ar deithiau cerdded dysgu, wrth graffu ar ddysgu ac wrth arsylwi gwersi. Mae'r staff wedi dod yn fwy hyderus wrth gynllunio ar gyfer dealltwriaeth gysyniadol ddofn gan ddefnyddio dulliau, diriaethol, darluniadol a haniaethol.
- Ystyriwyd bod yr adolygiadau 360° yn ddull defnyddiol ar gyfer hunan-adlewyrchu a nodi cryfderau personol a meysydd ar gyfer dysgu proffesiynol parhaus.

## Effaith y grant ar ddysgwyr

Mae'r grant ychwanegol wedi cael effaith gadarnhaol ar ddysgu ar draws yr ysgol, ac mae ddysgwyr yn defnyddio ystod o strategaethau cofnodi megis modelau darluniadol a bar, cyn symud ymlaen i ddulliau mwy haniaethol.

Mae'r effaith yn parhau i gael ei monitro, ond mae gan yr holl ddysgwyr agwedd gadarnhaol tuag at ddysgu mathemateg.

## Gwersi a ddysgwyd am ddysgu proffesiynol i'w cymhwyso ar draws yr ysgol

Bydd Ysgol Gynradd Langstone yn parhau i nodi dysgu proffesiynol ar gyfer yr holl staff yn unol â'u targedau rheoli perfformiad ac yn gysylltiedig â hunan-adolygiadau 360°, cynllun datblygu'r ysgol a blaenoriaethau rhanbarthol a chenedlaethol.

Bydd yr ysgol yn parhau i weithio gyda'r clystyrau i benderfynu ar y ffordd orau o symud pethau ymlaen i gefnogi'r Cwricwlwm i Gymru.

## Gwersi a ddysgwyd am ddysgu proffesiynol i'w rhannu ag ysgolion eraill

Dylai'r staff a'r llywodraethwyr fod yn ymwybodol o'r datblygiadau diweddaraf.

Mae hyfforddiant mewnol wedi'i gefnogi gan HMS a ddarparwyd gan ddarparwyr allanol.

Mae'r ymateb cadarnhaol i ofyn i'r staff yn yr ysgol lenwi holiaduron Hwb wedi galluogi'r ysgol i rannu 'yr hyn a aeth yn dda', ac mae gwneud hyn ar bob cam o'r daith wedi cynnig mwy o fanteision.

Mae hyfforddiant a newidiadau wedi'u rhannu ar draws y clwstwr a chydag ysgolion triad eraill er mwyn sicrhau effaith ehangach.

Mae unrhyw ddulliau newydd a ddatblygir yn seiliedig ar addysgeg ac ymchwil berthnasol, a chaiff hyn ei rannu ar bob cam.

Dylai staff fod yn rhan o'r gwaith o greu ffurflenni cynllunio newydd a gaiff eu hadolygu a'u diwygio yn briodol ac sy'n cefnogi datblygiad Cwricwlwm i Gymru.

## Camau nesaf

Wrth symud ymlaen, bydd Ysgol Gynradd Langstone yn parhau i ddarparu rhaglenni dysgu proffesiynol ar gyfer EAS. Bydd cynrychiolwyr o'r ysgol hefyd yn mynd i ddiwyddiadau rhanbarthol a chenedlaethol i sicrhau eu bod yn gwbl ymwybodol o ddatblygiadau.